Estyn



# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Rhos Helyg

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2024

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Rhos Helyg yn gymuned ofalgar, hapus a theuluol. Mae’r holl staff yn cydweithio’n effeithiol i ddarparu naws gynhwysol a chyfeillgar ble mae disgyblion yn ymddwyn yn barchus ac y gwrtais. Mae’r disgyblion yn dangos agwedd bositif at ddysgu ac maent yn gwneud cynnydd cadarn o’u mannau cychwyn.

Erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd a digidol yn dda. Er hyn, nid yw’r athrawon yn darparu cyfleoedd bwriadus i’r disgyblion hŷn ddatblygu a chymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn ddigon cyson. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn effeithiol ac mae eu gwaith yn cael ei arddangos a’i ddathlu’n ddeniadol o gwmpas yr ysgol.

Mae athrawon yn darparu cwricwlwm eang a diddorol i’r disgyblion ac yn ystyried eu barn yn synhwyrol am yr hyn maent am ei ddysgu mewn perthynas â’u themâu dysgu. Er hyn, mae athrawon yn gor-gyfarwyddo’r dysgu ar adegau ac nid yw lefel yr her bob amser yn addas ar gyfer diwallu anghenion bob disgybl. Ar adegau, mae profiadau dysgu yn annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi ei wreiddio a’i ddatblygu’n gyson, a chyfyng yw’r cyfleoedd i ddisgyblion fod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae gan y pennaeth dros dro weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sydd wedi ei rhannu’n bwrpasol â staff, rhieni a disgyblion. Mae’r weledigaeth yn seiliedig ar roi cyfle i bob disgybl ffynnu o fewn amgylchedd gofalgar. Mae staff yn eu cefnogi’n ymroddgar ac angerddol. Mewn amser byr, mae hyn wedi galluogi’r pennaeth dros dro i adnabod cryfderau ac agweddau ar gyfer gwelliant yr ysgol yn gywir. Mae llywodraethwyr yn gefnogol iawn o’r ysgol ac yn dangos ymwybyddiaeth dda o’u rolau a’u cyfrifoldebau. Maent yn cefnogi arweinwyr a staff yn briodol.

# Argymhellion

**A1** Ehangu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol

**A2** Sicrhau bod yr addysgu yn herio'r disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu

**A3** Sicrhau cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion hŷn ddatblygu a chymhwyso'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Rhos Helyg |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ceredigion |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 54 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 51 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 0 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 25.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 15.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 39.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Tachwedd 2023 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | Rhagfyr 2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 05/02/2024 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/04/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.